

"Pryd fydda i'n trosglwyddo i'r Cynllun Pensiwn newydd?"

Mae'n dibynnu ar eich oedran.

Mae'r Cynllun Pensiwn Athrawon newydd yn weithredol ers 1 Ebrill 2015, a bydd y mwyafrif o athrawon eisoes wedi trosglwyddo i'r cynllun newydd hwn.

Ni fydd athrawon oedd dros 53 oed ar 1 Ebrill 2015 yn ymuno â'r Cynllun Pensiwn newydd.

Bydd athrawon oedd yn talu i'r 'hen' gynllun pensiwn ers cyn 2007 a rhwng 49½ a 53 oed ar 1 Ebrill 2015 yn aros yn yr 'hen' gynllun am gyfnod pellach dan y Cynllun Gwarchodaeth Raddol (*Tapered Protection*) gan ymuno â'r Cynllun Newydd ar ddyddiad diweddarach . I weld tabl sy'n dangos y dyddiad y bydd athrawon rhwng 49½ a 53 oed ar 1 Ebrill 2015 yn ymuno â'r Cynllun Pensiwn Newydd:

http://www.ucac.cymru/images/PDF/1502_Gwarchodaeth_Raddol.pdf